# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 03.12.2025 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR AM 7 o'r GLOCH.

**Presennol –** Cynghorwyr
Liz Daniel (Cadeirydd)
Doug Jones
Dafydd Davies
Edgar Owen
Elfyn Griffith
Sali Burns
Menna Trenholme
Hawys Tuff (cyrraedd yn hwyrach)
Delyth Jones (Cofnodi)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng ID, Clerc SG

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 22.10.2025**
Y Cyng DD yn cynnig bod cofnodion y Cyfarfod yn gywri, y Cyng EG yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 22.10.2025**
**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dim pellach i'w adrodd.
**Cylchfan Gaeathro –** Wedi ei ailwynebu, aros i'r llinellau gael eu peintio.
**Hysbysfwrdd** – Wedi cyrraedd aros i gael ei osod. Cyn MT yn mynd i holi.
**Daffodils –** Clerc wedi rhannu y bylbs daffodils. Angen eu plannu.
**Llwybr Troed –** Cyn Gyg LLI wedi trafod y llwybr yn y gorffenol, rhieni newydd yn y pentref rwan wedi codi'r mater.
**Coeden Nadolig –** yn cael ei gosod penwythnos yma.

**Materion Waunfawr** –
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** – Wedi derbyn e-bost gan Cambrian Ecology yn cadarnhau y sefyllfa. Angen trafod ymhellach.
**Baw Ci** - Problem baw ci yn well eto am gyfnod, ond dal yn broblem.
**Gwefan** – Wedi ei diweddaru, wefan yn iawn am y tro ond angen ei diweddaru.
**Tyllau yn y ffordd -** Ffordd heibion Ael y Bryn angen sylw, ar y gweill i gael ei ail wynebu.
**Arwydd Stad Bod Hyfryd –** Aros Cyngor Gwynedd. Cyng EO yn mynd i holi Cibyn.
**Hysbysfwrdd** - Hysbysfwrdd wedi cyrraedd, JH yn mynd i osod un Waunfawr.

**Gor-yrru** – Dal yn broblem, PLIS PAWB i barchu y 20mya. Offer monitro wedi eu gosod ar Ben Cefn am gyfnod yn dilyn damweiniau yno.
**Potiau Blodau** – Cyng SB yn mynd i gysylltu hefo'r Antur.
**Daffodils** – Clerc wedi rhannu y bylbs daffodils. Cyng SB a Cyng DJ yn mynd i drefnu i blanu o gwmpas y pentref.
**Lon Garreg Fawr** – Dim newid.
**Coeden Nadolig** – Coeden Nadolig wedi ei goleuo. Cyng DJ a HT yn mynd i drio trefnu noson canu carolau o gwmpas y goeden.

**Grant Gwynedd Ni –** Logo Cyngor Cymuned Waunfawr – Delwedd – wedi ei gwblhau, ac wedi derbyn yr anfoneb am y gwaith.
Hysbysfwrdd x 2 – wedi eu derbyn aros i gael eu gosod. Gwefan – Dim yn mynd i ddigwydd eleni. Ffenestri newydd i'r Ganolfan Fach – i fod i gael eu gosod, 15, 16 a 17 o Ragfyr ond y contractor yn disgwyl llawdriniaeth. Bwriadu eu gosod cyn gynted a phosibl. Anfonebau i'w hanfon i'r Cyngor erbyn 31.12.2025.

6. **Sedd Wag –** Cyng MT yn trafod hefo unigolion Caeathro.

7. **Gerddi Bach –** Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

8. **Adroddiadau**
   a. **Lloches Bws** –Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.
   b. **Y Fynwent** – Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.
   c. **Llwybrau –** Cyng SB wedi cyfarfod hefo aelod o Partneriaeth Natur Gwynedd, Grant o hyd at £5,000 a'r gael, angen gwybodaeth o beth sydd angen sylw er mwyn gallu blaenoriaethu y gwaith.
   ch. **Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** – Cyfarfod wedi ei drefnu nos iau, 11/12/25 i drafod sut mae y broses yn datbllygu a sgwrs i esbonio beth sydd gan Gwyrfai Gwyrdd ei gynnig i'r trigolion. Safle we www.gwyrfaigwyrdd.cymru
   d. **Gwaith atal llifogydd Waunfawr –** Gwaith yn mynd yn ei flaen, gwelliant i'w weld yn barod. Clerc i gysylltu a YGC i ofyn o soes modd rhoid llinnell wen lawr ymyl ffordd o Snowdonia Fire i Groeslon er mwyn dangos bod ffoes wrth ymyl y ffordd fel sydd yn uwch i fyny.

9. **Materion Cynllunio**

   a. **Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

10. **Gohebiaeth**
Unllais – Cyng MT ddim yn derbyn unrhyw ohebiaeth ganddynt. Cyng SB yn mynd i anfon ymlaen unrhyw e-byst.
Aelod Seneddol – Ysgol Ddeintyddol – Clerc i ail anfon yr ohebiaeth bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r fenter.
Llwybr Llechi Eryri – Clerc i ymateb fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol.
Cynghorau Pentrefi Bychan – Grantiau ar gyfer Caeau chwarae -Trafodwyd ond falle ddim ei angen ar hyn o bryd. Clerc i ofyn am wybodaeth Step wrth step er mwyn cael mwy o wybodaeth.
Whitehill – hysbysfwrdd Waunfawr a Chaeathro
National Grid – Cyflwyniad i brosiect Cysylltiad Gorllewinol 2

Eco'r Wyddfa
Ysgol Brynrefail – Ethol rhieni ar gorff Llywodraethwyr
Theatr Bara Caws – Llanast
Cyngor Gwynedd – Gorchymyn Cau ffyrdd, Caeathro
Cambrian Ecology – Tir tu ol i'r Ganolfan
Cyngor Gwynedd – Arolwg Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd
Delwedd – Logo Cyngor Cymuned

**11. Materion Ariannol**

**11.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| £258.00 | Cyflog Clerc |
| £52.00 | H M Revenue & Customs |
| £360.00 | Delwedd Ltd |
| | |
| £200.00 | Clwb Bowlio, Waunfawr |
| £500.00 | Clwb Rygbi, Caernarfon |
| £100.00 | Theatr Bara Caws |
| £2,000 | Cylch Meithrin Waunfawr |

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

**11.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| £258.00 | Cyflog Clerc |
| £52.00 | H M Refenue & Customs |

**11.4 Ffioedd Banc**
£0.40 – Medi - Hydref
£3.60 – Hydref - Tachwedd

**11.5 TAW**
Aros ymateb gan A Hughes Jones, Dyson & Co

**12. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**
Nos Fercher, 14.01.2026, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

Angen trafod cynlluniau y Cyngor Cyumuned i'r dyfodol, a'u blaenoriaethu Tymor Byr, Tymor Canolig, Tymor Hir. Y darn yma o waith yn hanfodol hefyd ar gyfer penderfynu ar y Preasept ar gyfer y dyfodol a rhaglenu gwariant y Cyngor Cymuned e.e Ffens yr ysgol – angen amcan bris ar gyfer gorffen y ffens o flaen yr ysgol, Cyngor Cymuned yn fodlon cyfranu at y gwaith. Clerc i holi am amcan gost gan yr ysgol.

**13. Materion Aelodau. -**

| | |
|---|---|
| Cyng EO – | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng SB - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng ID - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng LD - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng MT - | Dim wedi ei dderbyn |

| | |
|---|---|
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng HT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DD- | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng EG- | Chwyn ar hyd y palmentydd a gwteri angen eu llnau yn y pentref – Cyng EO yn mynd i holi yn y Cyngor. |